Y Gŵr wrth Ffynnon Jacob

Caneuon Ffydd: Rhif 328

Y Gŵr wrth Ffynnon Jacob
eisteddodd gynt i lawr,
tramwyodd drwy Samaria,
tramwyed yma nawr;
'roedd syched arno yno
am gael eu hachub hwy,
mae syched arno eto
am achub llawer mwy.

Mwy, mwy,
am achub llawer mwy,
mae syched arno eto
am achub llawer mwy.

THOMAS WILLIAM, 1761–1844

MYFYRDOD

Daeth yr emyn hwn o eiddo Thomas William, Bethesda'r Fro, i fri ymhen blynyddoedd lawer ar ôl ei gyfansoddi, sef yn ystod Diwygiad 1904–05. Dywedir mai Elfed oedd yn gyfrifol am ei gyflwyno i oedfaon y Diwygiad, ac yn wir fe gyfansoddodd ef bennill arall ar batrwm emyn Thomas William i gael ei ganu gydag ef, er mai sefyll ar ei ben ei hun a wna bellach yn *Caneuon Ffydd*.

Dweud hanes Iesu, fel y'i ceir yn Ioan pennod 4, yn teithio drwy Samaria ar ei ffordd yn ôl i Galilea, mae'r emyn, ond mae'r hanes yn un cyfoethog iawn a'r cyfarfyddiad gyda'r wraig o Samaria ger ffynnon Jacob yn ddarlun godidog inni o sut i dorri trwy ragdybiaethau a chrefyddoldeb pobl a chyflwyno'r Efengyl iddynt yn ei phurdeb. Bwriad Iesu o'r cychwyn un yn ei gyfarfod gyda'r wraig yw ei harwain at y 'dŵr bywiol' a geir yn unig ganddo ef. Achub sydd ar ei agenda, ac mae Thomas William wedi crynhoi bwriad Crist yn odidog yn ei linell: ''roedd syched arno yno am gael eu hachub hwy'.

Ond er mai un bwriad oedd gan Iesu wrth siarad â'r wraig, y mae'n dangos amynedd rhyfeddol gyda hi ac yn rhoi cyfle iddi hi i ddweud ei stori ei hun ac i godi ei chwestiynau. Mae'n ei ddangos ei hun yn gwbl ddiduedd hefyd yn ei barodrwydd i siarad â gwraig i gychwyn, heb sôn am wraig sy'n dod o Samaria, lle'r oedd yna gymaint o elyniaeth a chasineb wedi bod rhwng trigolion y wlad honno a'r Iddewon ar hyd y canrifoedd. Doedd arno ddim cywilydd chwaith ofyn iddi hi am gymwynas. Ond gwrthododd fynd i ddadlau â hi pan ofynnodd pa fynydd oedd yr un iawn i fod yn addoli arno, eu mynydd hwy yn Gerisim neu yn Jerwsalem. Nid oes neb yn cael ei ennill i Grist trwy ddadlau, a thorrodd Iesu ar draws ei dadleuon trwy sôn yn syml am wir addoliad sydd yn torri ar draws pob crefyddoldeb ac yn sefydlu perthynas fywiol rhyngom a Duw ei hun – 'addoli mewn ysbryd a gwirionedd', nid mewn man penodol ac arbennig.

Gwelodd gyflwr y wraig fel ag yr oedd hi, gwelodd drwy bob rhwystr a llen yr oedd hi'n ceisio eu gosod rhyngddi hi ei hun ac ef, a phan edrychodd hithau yn ei lygaid fe welodd gariad a thrugaredd tuag ati er gwaethaf ei phechodau. Roedd Iesu'n barod i'w chanmol am geisio iachawdwriaeth drwy'r dŵr bywiol yr oedd ef yn ei gynnig iddi hi ac fe'i defnyddiwyd hi wedyn gan Dduw i godi chwilfrydedd ynddo ef, a ymledodd fel tân gwyllt ymysg pobl yr ardal. Efallai nad oedd y disgyblion yn hapus iawn gyda'r sefyllfa pan welson nhw fod Iesu wedi siarad â'r wraig, ond mae'n eu hannog i godi eu llygaid 'ac edrychwch ar y meysydd, oherwydd y maent yn wyn ac yn barod i'w cynaeafu' (Ioan 4:35). Yng ngeiriau Thomas William, 'mae syched arno eto am achub llawer mwy', pwy bynnag ydyn nhw a chyda pha ddull a modd bynnag y gwêl yn dda eu defnyddio er mwyn gweld pobl yn drachtio o ffynnon y dŵr bywiol ynddo ef ei hun ac yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd.

GWEDDI

O Arglwydd da, rho i mi beth i'w yfed o ffynnon y dŵr bywiol, a gad imi ddrachtio'n ddwfn ohoni a chymell eraill trwy pa bynnag ddull yr wyt ti'n ei agor imi i ddod i ddrachtio hefyd. Er mwyn Iesu. Amen.